Rhif: WG32511

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Ymgynghoriad ynglŷn â chyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig am achosion bychain o dipio anghyfreithlon yng Nghymru

Gorffennaf 2017

OGL © Hawlraint y Goron ISBN digidol 978-1-78859-140-9

**Ymgynghoriad ynglŷn â chyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig am achosion bychain o dipio anghyfreithlon yng Nghymru.**

## Crynodeb ac ymateb Llywodraeth Cymru

**Cynnwys**

Trosolwg 2

Cwestiwn 1: Ydych chi'n meddwl y byddai cyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gyfer achosion bychain o dipio anghyfreithlon yn fodd effeithiol i Awdurdodau Lleol fynd i'r afael ag achosion bychain o dipio anghyfreithlon? 2

Cwestiwn 2: Ydych chi'n credu y bydd y swm arfaethedig ar gyfer y gosb benodedig (rhwng £150 a £400) yn ddigon o gymhelliad i beidio â thipio'n anghyfreithlon? 4

Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno y dylid cynnwys y posibilrwydd o dalu'r gosb benodedig yn gynnar, a hynny gyda'r lleiafswm sy'n cael ei argymell? 5

Cwestiwn 4: A ddylid ymestyn y grym i gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig i swyddogion awdurdodedig eraill ar wahân i'r rheini wedi eu dynodi gan yr Awdurdodau Lleol, er enghraifft, swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru? 6

Cwestiwn 5: Pa gymorth sydd ei angen gyda hyfforddiant a chanllawiau, os o gwbl, ar yr awdurdodau gorfodi wrth weithredu Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gyfer tipio anghyfreithlon? Ymhelaethwch. 7

Cwestiwn 6: A yw'r ffigyrau a gaiff eu defnyddio yn yr asesiadau effaith yn adlewyrchiad manwl o'r costau sy'n dod i ran Awdurdodau Lleol wrth archwilio/erlyn/clirio achosion bychain o dipio anghyfreithlon? Os na, ymhelaethwch 8

Cwestiwn 7: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle gwag isod i sôn amdanynt 9

**Trosolwg**

Derbyniwyd cyfanswm o 171 o ymatebion i'r ymgynghoriad gyda'r rheini a ymatebodd yn amrywio'n fawr ac yn cynnwys Awdurdodau Lleol, cyrff rheoleiddio, undebau llafur, cynrychiolwyr amryw o dirfeddianwyr preifat, y trydydd sector ac aelodau'r cyhoedd.

**Cwestiwn 1: Ydych chi'n meddwl y byddai cyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gyfer achosion bychain o dipio anghyfreithlon yn fodd effeithiol i Awdurdodau Lleol fynd i'r afael ag achosion bychain o dipio anghyfreithlon?**

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd mwy na 90% o'r rheini a ymatebodd i'n hymgynghoriad yn cefnogi'r syniad o gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gyfer achosion bychain o dipio anghyfreithlon yng Nghymru. O ran y nifer bychan oedd yn wrthwynebus, roedd y mwyafrif o'r farn mai polisïau rheoli gwastraff yr Awdurdodau Lleol oedd wrth wraidd y broblem, ac mai dim ond newid y rhain felly fyddai'n arwain yn y pendraw at lai o dipio anghyfreithlon.

Ymysg yr 11 Awdurdod Lleol a ymatebodd i'r ymgynghoriad, roedd cydsyniad y byddai Hysbysiadau Cosb Benodedig yn cynnig ffordd fwy effeithlon a chymesur o fynd i'r afael ag achosion bychain. Roedd cytundeb cyffredin y byddai mynd ati fel hyn yn fodd o'u cynorthwyo i ryddhau adnoddau'n fewnol, gwella'u trefniadau gorfodi a lleihau'r baich ar y llysoedd. Fodd bynnag, awgrymodd rhai o'r Awdurdodau Lleol a ymatebodd, ynghyd ag eraill, fod angen arweiniad i ddiffinio "achosion bychain" ac i roi cymorth i ddweud pryd fyddai'n briodol cyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig.

Unwaith eto, roedd ymatebion gan dirfeddianwyr preifat, neu'r rheini oedd yn cynrychioli'r sector hwn (er enghraifft Cymdeithasau Tai ac Undebau Ffermio) ar y cyfan o blaid cyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig, er i rai lleisio pryder ynghylch y diffyg darpariaeth o ran eu defnyddio ar dir preifat. Yn benodol, y pryder oedd y byddai'r dull presennol yn arwain at system orfodi "ddwy haen" yng Nghymru ac yn annog mwy o dipio anghyfreithlon ar dir preifat. I osgoi hyn, awgrymodd nifer bychan o ymatebwyr y dylai archwilio achosion o dipio anghyfreithlon fod yn ddyletswydd statudol i Awdurdodau Lleol ar bob math o dir.

Roedd cefnogaeth eang i'r grymoedd newydd gan y rheini oedd yn cynrychioli'r trydydd sector a mudiadau cymunedol, er bod rhai am weld awdurdodau lleol yn ymwneud yn well â chymunedau, yn enwedig o ran codi ymwybyddiaeth o bolisïau rheoli gwastraff lleol. Teimlwyd bod hyn yn neilltuol o bwysig ble roedd Awdurdodau Lleol yn ystyried newid yn narpariaeth canolfannau gwaredu gwastraff.

Roedd mwyafrif yr ymatebion gan aelodau'r cyhoedd o blaid grymoedd gorfodi ychwanegol, er i nifer bychan fynegi pryder ynghylch sut y byddai Awdurdodau Lleol

yn eu gweithredu (er enghraifft, y posibilrwydd o roi Hysbysiadau Cosb Benodedig i'r person anghywir). Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn cwestiynu a fyddai Hysbysiadau Cosb Benodedig yn briodol ar gyfer troseddwyr cyson neu ar gyfer pobl sy'n tipio'n anghyfreithlon ar raddfa fawr. Roedd rhai aelodau o'r cyhoedd hefyd yn amau pa mor effeithiol fyddai'r grymoedd newydd os na fyddai'r Awdurdodau Lleol yn gallu eu gweithredu. Soniodd rhai am yr anhawster o ddarganfod tystiolaeth i allu dal troseddwyr.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r gefnogaeth a gafwyd i'r cynnig a bydd yn awr yn ceisio cyflwyno'r grymoedd newydd hyn i Gymru. Rydym yn cydnabod y galwadau am fwy o eglurder ynglŷn â diffinio achosion bychain o dipio anghyfreithlon a byddwn yn gweithio gyda Thaclo Tipio Cymru ac Awdurdodau Lleol i weld faint o arweiniad sydd ei angen.

O dan y rheoliadau newydd awgrymir y gall swyddog awdurdodedig gyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig os oes ganddo achos i gredu bod rhywun wedi cyflawni trosedd yn ymwneud â gwaredu gwastraff (o dan adran 33 o Ddeddf Amddiffyn yr Amgylchedd 1990) yn ardal yr Awdurdod Lleol. Felly, y bwriad yw gallu defnyddio'r grymoedd ychwanegol hyn ar dir cyhoeddus a phreifat. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y pryderon a leisiwyd gan rai o'r rheini sy'n cynrychioli tirfeddianwyr preifat o ran y posibilrwydd y bydd Awdurdodau Lleol yn canolbwyntio'u hymdrechion ar dir cyhoeddus a goblygiadau posib hynny. Rydym yn cydnabod bod mynd i'r afael â'r agwedd benodol hon o dipio anghyfreithlon yn codi sawl her a byddwn yn parhau i weithio gyda Thaclo Tipio Cymru, tirfeddianwyr a'u hamrywiol gynrychiolwyr i archwilio sut orau i fynd i'r afael â nhw.

O ran y sylwadau a wnaed ynghylch pa mor briodol fyddai hi i roi Hysbysiadau Cosb Benodedig i droseddwyr cyson ac achosion mwy o faint, mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd Awdurdodau Lleol yn gweithredu eu grymoedd erlyn troseddwyr mewn achosion o'r fath yn hytrach na dibynnu ar Hysbysiadau Cosb Benodedig. Fodd bynnag, gellid rhoi sylw pellach i hyd pe datblygid canllawiau ategol. Rydym hefyd yn bwriadu parhau i weithio gyda Thaclo Tipio Cymru a phartneriaid allweddol eraill i helpu i wella'r cymhwysedd gorfodi sydd gan Awdurdodau Lleol ar hyn o bryd. Gallai hyn gynnwys rhannu adnoddau (er enghraifft camerâu diogelwch), gwella'r ffordd o gasglu gwybodaeth a datblygu arfer dda.

**Cwestiwn 2: Ydych chi'n credu y bydd y swm arfaethedig ar gyfer y gosb benodedig (rhwng £150 a £400) yn ddigon o gymhelliad i beidio â thipio'n anghyfreithlon?**

## Crynodeb o'r Ymatebion

Cytunodd cyfran fawr o'r ymatebwyr fod yr ystod arfaethedig yn ddigonol, er bod nifer wedi awgrymu y gellid naill ai gynyddu'r ffigur isaf i £200 neu'r ffigur uchaf i £500. Fodd bynnag, roedd nifer sylweddol o ymatebwyr yn teimlo bod yr ystod bresennol yn rhy isel gyda rhai yn awgrymu ei chynyddu i £1000. Ymysg y rheini oedd yn dadlau dros ddirwyon uwch, roedd y rhesymau'n amrywio o'r gred y byddai symiau uwch yn fwy o gymhelliad i beidio â theipio'n anghyfreithlon, i bryderon na fyddai'r symiau presennol yn ddigon i gwrdd â'r costau fyddai'n dod i ran yr Awdurdodau Lleol i glirio'r gwastraff a waredwyd yn anghyfreithlon. Teimlai nifer o ymatebwyr hefyd y dylid gosod dirwy digon uchel fel nad yw'n cymell pobl i gael gwared ar wastraff yn anghyfreithlon h.y. dylai fod yn uwch na'r gost o logi sgip.

Awgrymodd ymatebwyr hefyd nifer o ffyrdd eraill o bennu swm dirwyon ac roedd y rhain yn cynnwys cyflwyno graddfa yn cyfateb i ddifrifoldeb y drosedd, ymysg pethau eraill. Er enghraifft, byddai'r drosedd o gael gwared ar nifer bychan o sachau sbwriel du yn arwain at ddirwy o £200 a chael gwared ar lond fan o sbwriel yn golygu dirwy o £500. Cyfeiriodd sawl ymatebydd fod angen cynyddu maint y dirwyon petai unrhyw dystiolaeth o aildroseddu. Galwyd hefyd am sicrhau cysondeb gyda'r symiau y mae Cynghorau Lloegr ar y gororau wedi eu gosod rhag annog tipwyr anghyfreithlon i dargedu Cymru.

Roedd Awdurdodau Lleol ar y cyfan yn gefnogol i'r symiau arfaethedig, gydag un ymatebydd yn nodi'r angen i'r Hysbysiad Cosb Benodedig fod yn ddigon uchel i gymell pobl i beidio â thipio ond ddim yn rhy fawr i gymell pobl i beidio â thalu, yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig. Nodwyd hefyd y byddai cyfraddau uchel o ddirwyon heb eu talu yn arwain at ddefnyddio mwy o adnoddau Awdurdodau Lleol i erlyn achosion drwy'r llysoedd.

O'r ymatebion hynny gan fudiadau a oedd yn cynrychioli tirfeddianwyr preifat, roedd galwadau am rannu'r arian a gafwyd o gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig ar dir preifat gyda'r tirfeddiannwr fel modd o helpu i gwrdd â chostau gwaredu.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Wrth benderfynu gosod eu symiau cosb benodedig eu hunain, bydd Awdurdodau Lleol yn aml yn ystyried nifer o ffactorau gan gynnwys yr elfen o gymhelliant i beidio â throseddu, gallu'r trigolion i dalu'r ddirwy a maint y ddirwy a osodir yn lleol am y drosedd benodol mewn llysoedd ynadon. Tra bo Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod nifer o ymatebwyr yn awyddus i gynyddu swm y dirwyon y tu hwnt i'r hyn a

argymhellir ar hyn o bryd, diben yr Hysbysiadau Cosb Benodedig yw mynd i'r afael ag achosion bychain o dipio anghyfreithlon ar raddfa fach. Petai'r tipio anghyfreithlon yn ymwneud â swmp mawr o wastraff a fyddai'n sail i gyflwyno dirwy uwch, yna byddem yn disgwyl i'r Awdurdod Lleol geisio erlyniad troseddol gan ddefnyddio'r grymoedd sydd ganddo yn hytrach na chyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig.

Rydym hefyd yn bryderus y gallai'r Hysbysiad Cosb Benodedig fod yn gosb anghymesur pe gosodid y ddirwy'n rhy fawr ac fe allai hyn arwain at gyfradd uwch o bobl ddim yn talu. Er enghraifft, os mai ystod uchaf y ddirwy oedd £1000 yna byddai rhywun a gafodd wared ar ambell sach sbwriel yn debygol o herio dirwy uwch. Byddai hyn yn y pen draw yn arwain at bwysau cynyddol ar Awdurdodau Lleol a Llysoedd Ynadon, a byddai'n tanseilio'r rhesymeg wreiddiol dros gyflwyno'r Hysbysiadau Cosb Benodedig. Dylid sylwi hefyd fod yr ystod arfaethedig yn cyfateb yn fras i'r ystod sy'n berthnasol ar gyfer troseddau amgylcheddol eraill, er enghraifft, gall Awdurdodau Lleol yng Nghymru osod maint y ddirwy am daflu sbwriel rhwng £75 a £150.

Ar sail hyn rydym yn credu y dylid cadw at yr ystod arfaethedig a argymhellir yn y ddogfen ymgynghori. Bydd dewis gan yr Awdurdodau Lleol i bennu'r swm yn unol ag amgylchiadau lleol.

**Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno y dylid cynnwys y posibilrwydd o dalu'r gosb benodedig yn gynnar, a hynny gyda'r lleiafswm sy'n cael ei argymell?**

**Crynodeb o'r Ymatebion**

Cytunai mwyafrif yr ymatebwyr y dylid cynnig gostyngiad i annog pobl i dalu Hysbysiad Cosb Benodedig yn brydlon. Fodd bynnag, roedd y gefnogaeth yn amrywio ymysg y rheini a oedd o blaid hyn. Er enghraifft, teimlai rhai ymatebwyr fod y gostyngiad yn syniad da ond y dylid cynyddu'r lleiafswm o £120 i £150 (gan godi lefel isaf y ddirwy hefyd i £200). Roedd eraill yn ei gefnogi mewn egwyddor dim ond petai'r gostyngiad yn dal yn cwrdd â chost gwaredu'r gwastraff.

O'r Awdurdodau Lleol hynny a ymatebodd, roedd y rhan fwyaf o blaid cynlluniau o'r fath gyda rhai yn dweud y byddai hyn yn sicrhau'r cyhoedd fod Hysbysiadau Cosb Benodedig yn offeryn gorfodi yn hytrach na ffordd o wneud arian. Dywedodd ymatebwyr eraill y byddai cynlluniau o'r fath yn gymorth i annog pobl i dalu ac yn lleihau'r angen i erlyn troseddwyr drwy'r llysoedd.

Fodd bynnag, roedd cyfran helaeth o ymatebwyr yn gwrthwynebu cynnig unrhyw fath o gynllun ad-dalu cynnar, gyda nifer o'r farn bod gostyngiadau o'r fath naill ai'n gwneud yn fach o'r drosedd wreiddiol neu y byddai'n tanseilio'r agwedd honno o'r ddirwy sy'n cymell pobl i beidio â throseddu.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod rhoi'r dewis i dalu'n gynnar yn gyson â mathau eraill o gosbau ariannol, er enghraifft, taflu sbwriel, a gall leihau nifer y rhai nad ydynt yn talu. Mae hyn yn ei dro yn dileu'r angen ar Awdurdodau Lleol i erlyn achosion o ddiffyg talu drwy'r llysoedd, sy'n gallu cymryd amser maith a defnyddio adnoddau lawer, ynghyd ag ychwanegu pwysau diangen ar y llysoedd. Dylid nodi mai isafswm yw'r swm arfaethedig o £120 a bod modd i'r Awdurdodau Lleol gynyddu hwn petaen nhw'n penderfynu na fyddai swm uwch yn cymell pobl i beidio â thalu. Er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod barn y bobl hynny sy'n gwrthwynebu dewis o'r fath, rydym yn credu bod y cydbwysedd o fanteision ac anfanteision yn tueddu tuag at gynnwys dewis o'r fath yn yr achos hwn ac y bydd yn sicrhau cysondeb â grymoedd rheoleiddiol amgylcheddol eraill.

**Cwestiwn 4: A ddylid ymestyn y grym i gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig i swyddogion awdurdodedig eraill ar wahân i'r rheini wedi eu dynodi gan yr Awdurdodau Lleol, er enghraifft, swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru?**

**Crynodeb yr Ymatebion**

Cytunai mwyafrif helaeth yr ymatebwyr fod peth gwerth mewn caniatáu i swyddogion awdurdodedig eraill gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig am achosion bychain o dipio anghyfreithlon. Fodd bynnag, doedd cyfran helaeth o'r ymatebwyr ddim yn dynodi unrhyw fudiad neu awdurdod penodol. Ymysg y rheini a wnaeth, roedd y prif argymhellion yn cynnwys swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru, Swyddogion Awdurdod y  Parciau Cenedlaethol a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu / Swyddogion yr Heddlu. Roedd y gefnogaeth hon yn seiliedig ar y syniad y byddai'r grymoedd yn cael eu gweithredu'n amlach ac yn fwy eang po fwyaf o swyddogion oedd yn defnyddio'r grymoedd. Byddai hyn yn ei dro yn cymell mwy o bobl i beidio â thipio'n anghyfreithlon.

Roedd gwahaniaeth barn ymysg yr awdurdodau lleol ynglŷn â'r ffordd hon o weithredu. Roedd rhai yn dweud mai cyfrifoldeb yr Awdurdodau Lleol oedd achosion bychain yn draddodiadol, nid cyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n unol â'r protocol Tipio Anghyfreithlon presennol rhwng y ddau fudiad. Fodd bynnag, roedd eraill yn fwy cefnogol o ehangu'r grymoedd, er na roddodd y rhan fwyaf unrhyw dystiolaeth bellach i gefnogi'r safbwynt hon. O ran y gefnogaeth ehangach i'r cynnig hwn, awgrymodd nifer o'r ymatebwyr y dylid ond ehangu'r cyfrifoldebau pe rhoddid hyfforddiant ac adnoddau digonol i'r mudiadau eraill a bod trefn addas yn cael ei sefydlu i rannu gwybodaeth rhwng swyddogion awdurdodedig.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae ymatebion i'r cwestiwn hwn yn awgrymu bod cefnogaeth helaeth i ehangu'r grymoedd newydd hyn y tu hwnt i Awdurdodau Lleol, er bod gwahaniaeth barn ynglŷn â sut y byddai hyn yn gweithio a phwy ddylai gael y grymoedd. Er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y gefnogaeth hon yn seiliedig ar y gred y byddai modd gweithredu mwy o Hysbysiadau petai gan awdurdodau eraill rymoedd o'r fath, mae angen bod yn wyliadwrus wrth benderfynu pwy sy'n addas i ysgwyddo cyfrifoldeb o'r fath. Dim ond yr awdurdodau hynny sy'n gallu erlyn rhywun am waredu gwastraff yn anghyfreithlon y byddai modd eu hystyried, a dim ond gan rai ohonyn nhw fyddai'r arbenigedd priodol. Byddwn yn ystyried y mater ymhellach cyn gweithredu ar y cynnig ynglŷn â'r Hysbysiad Cosb Benodedig.

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr yn benodol at y "Protocol Tipio Anghyfreithlon". Mae'r ddogfen hon yn nodi Awdurdodau Lleol fel y mudiadau sy'n canolbwyntio ar glirio achosion bychain o dipio anghyfreithlon ar dir cyhoeddus, gan gynnwys ffyrdd a chilfannau, a Chyfoeth Naturiol Cymru fel y corff sy'n canolbwyntio ar achosion mawr o dipio anghyfreithiol mewn perthynas â gwastraff nad yw'n beryglus, rhai mathau o wastraff peryglus a rhan trosedd cyfundrefnol mewn tipio anghyfreithlon a rheoli gwastraff yn anghyfreithlon. Pe câi'r grymoedd eu hymestyn i Gyfoeth Naturiol Cymru, roedd pryderon y gallai'r angen i adolygu'r protocol er mwyn adlewyrchu'r newidiadau hyn o bosib beri dryswch ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am ymdrin ag achosion bychain o dipio anghyfreithlon.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y mater hwn ymhellach, a chyn dod i benderfyniad, byddwn yn trafod goblygiadau posib ymestyn y grymoedd arfaethedig y tu hwnt i awdurdodau lleol gyda phob partner allweddol.

**Cwestiwn 5: Pa gymorth sydd ei angen gyda hyfforddiant a chanllawiau, os o gwbl, ar yr awdurdodau gorfodi wrth weithredu Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gyfer tipio anghyfreithlon? Ymhelaethwch.**

**Crynodeb o'r Ymatebion**

Ymysg y rheini a ymatebodd i'r cwestiwn hwn (133 o'r 171) roedd pawb i'w gweld yn gytûn bod digon o arbenigedd 'mewnol' eisoes gan Awdurdodau Lleol i weithredu cynllun Hysbysiadau Cosb Benodedig newydd, er bod rhai o'r farn bod angen rhaglen hyfforddiant safonol i helpu i gael gwell cysondeb ar draws Cymru. Bu sawl cais i ddatblygu canllaw penodol i ategu'r Hysbysiadau Cosb Benodedig, yn enwedig mewn perthynas â diffinio "achosion bychain." Yn benodol, roedd yr Awdurdodau Lleol a atebodd yn eiddgar i dderbyn cymorth ychwanegol, er bod gwahaniaeth barn o ran pa mor haearnaidd y dylai hynny fod. Er enghraifft, awgrymodd un Awdurdod Lleol y syniad o ddatblygu matrics syml tra teimlai un arall bod angen cyngor sylweddol i helpu i benderfynu pryd y dylid cyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig.

Ar wahân i'r ceisiadau am hyfforddiant penodol, mynegwyd pryder ynghylch pa mor briodol fyddai hi i Awdurdodau Lleol roi'r dyletswyddau gorfodi yn nwylo cwmnïau preifat a'r peryglon posib o ddefnyddio Hysbysiadau Cosb Benodedig yn amhriodol. Pe eid ati yn y fath fodd, awgrymwyd y dylid ehangu'r hyfforddiant a'r canllawiau i'r swyddogion gorfodi hyn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod gan Swyddogion Awdurdodau Lleol y sgiliau a'r cymwyseddau yn barod i weithredu trefn newydd o ran Hysbysiadau Cosb Benodedig. Serch hyn rydym yn cydnabod y bydd angen arweiniad pellach o bosib i helpu swyddogion i ymgymryd â'u dyletswyddau. Rydym yn gobeithio gweithio gyda Thaclo Tipio Cymru a phartneriaid allweddol eraill i edrych ar ba gefnogaeth y mae modd ei darparu a sut orau i'w rhoi ar waith.

**Cwestiwn 6: A yw'r ffigyrau a gaiff eu defnyddio yn yr asesiadau effaith yn adlewyrchiad manwl o'r costau sy'n dod i ran Awdurdodau Lleol wrth archwilio/erlyn/clirio achosion bychain o dipio anghyfreithlon? Os na, ymhelaethwch.**

Oherwydd natur benodol y cwestiwn hwn, ni fu i gyfran helaeth o'r ymatebwyr naill ai wneud unrhyw sylw neu dywedasant nad oedden nhw'n teimlo bod ganddyn nhw'r arbenigedd angenrheidiol i roi barn. O'r rheini a anghytunai â'r ffigyrau a roddwyd, teimlai cyfran helaeth nad oedd y costau'n adlewyrchu'r rheini a oedd yn dod i ran tirfeddianwyr (yn enwedig y rheini mewn ardaloedd gwledig) ac o'r herwydd nad oedden nhw'n rhoi darlun cywir. Teimlai eraill fod y data a ddefnyddiwyd naill ai'n anghyflawn (er enghraifft doedd dim sôn am y costau yn ymwneud ag ymlid pobl oedd heb dalu) neu ei fod yn dibynnu ar ffigurau oedd wedi dyddio. Cafwyd gwahanol atebion gan Awdurdodau Lleol. Awgrymai rhai bod y costau'n rhy isel tra bod eraill yn teimlo eu bod yn weddol agos ati o ystyried natur fechan y drosedd. Cynigiodd Taclo Tlodi Cymru a'r Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff help i wella'r wybodaeth gyfredol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen am ddata manwl cywir ac yn cyfaddef bod bylchau yn y data cyfredol. Fodd bynnag, at ddibenion yr Asesiad Effaith hwn rydym yn credu bod yr wybodaeth sydd ar gael yn fodd o lunio gwaelodlin addas fel modd o gyfrifo costau. Wrth symud ymlaen, byddwn yn parhau i weithio gydag Awdurdodau Lleol a Thaclo Tlodi Cymru i helpu i wella ansawdd y data. Rydym hefyd yn croesawu cynnig y Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff i helpu yn y broses o gasglu data.

**Cwestiwn 7: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle gwag isod i sôn amdanynt**

Defnyddiodd sawl ymatebydd y cyfle hwn i fynegi barn ar ystod eang o faterion. Roedd y rhain yn cynnwys sut y cai gwasanaethau rheoli gwastraff yr Awdurdod Lleol eu rhedeg ar hyn o bryd (neu newidiadau i'r gwasanaethau hyn), materion ehangach ynghylch ansawdd yr amgylchedd yn lleol (er enghraifft baw cŵn a thaflu sbwriel) ac achosion cyfredol o weithredu'r grymoedd. O'r rheini a soniodd am y ddarpariaeth wastraff lleol, roedd y rhan fwyaf yn aelodau o'r cyhoedd a roddodd dystiolaeth bersonol o sut roedd eu Cyngor yn rhedeg y gwasanaethau hyn. Roedden nhw o'r farn bod methiannau yn y gwasanaethau hyn yn cyfrannu at dipio anghyfreithlon yn eu bröydd. Er na chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth benodol i gefnogi'r honiadau hyn, mae'n ymddangos bod cred gadarn ymysg rhai bod gofynion unigol Awdurdodau Lleol mewn perthynas â'r gwasanaeth (er enghraifft, taliadau am gael gwared ar rai eitemau penodol) yn llestair i bobl sydd eisiau cael gwared â'u gwastraff mewn ffordd gyfreithlon.

Yn ychwanegol at y pryderon hyn, teimlai nifer o ymatebwyr fod y diffyg adnoddau a'r grymodd gorfodi sydd gan Awdurdodau ar hyn o bryd yn tanseilio'r frwydr yn erbyn tipio anghyfreithlon. Gwnaed sawl argymhelliad fel modd o fynd i'r afael â hyn; yn eu plith roedd yr angen i wella'r cymhwysedd goruchwylio, cynyddu maint y ddirwy mae modd ei rhoi, gwarchod cyllid awdurdodau lleol i fynd i'r afael yn benodol â thipio anghyfreithlon, a chynnal ymgyrchoedd helaeth i godi ymwybyddiaeth, yn enwedig pan gaiff troseddwyr eu dal. Pwysleisiwyd hefyd fod angen rhannu data a gwybodaeth yn effeithiol rhwng yr amrywiol asiantaethau sy'n ymdrin â thipio anghyfreithlon. Teimlai ymatebwyr fod hyn yn eithriadol o bwysig mewn perthynas â Hysbysiadau Cosb Benodedig oherwydd mae derbyn dirwy yn ei hanfod yn golygu rhyddhau'r troseddwr o'i atebolrwydd ac, o'r herwydd, ni fyddai'n arwain at gofnod troseddol.

Awgrymodd nifer o ymatebwyr hefyd fod angen mwy o bwyslais ar fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon ar dir preifat, yn enwedig o ran eiddo preifat ar rent ac yng nghefn gwlad lle gall fod yn anoddach cael gwared ar wastraff yn gyfreithlon. Mynegwyd pryder ynghylch y rheidrwydd ar dirfeddianwyr i dalu am glirio'r gwastraff anghyfreithlon o'u tir, a'r baich ariannol y mae hyn yn ei roi ar unigolion/mudiadau. I helpu i fynd i'r afael â hyn gwnaed sawl argymhelliad. Roedd y rhain yn cynnwys yr angen i Awdurdodau Lleol ymchwilio i achosion o dipio anghyfreithlon ar dir preifat, datblygu negeseuon mwy cyson i amlygu'r broblem o dipio anghyfreithlon, a chyflwyno ystod ehangach o fesurau gorfodi, er enghraifft, y gallu i atafaelu cerbydau.

Gwnaed sawl sylw ynglŷn â sut orau i atal tipio anghyfreithlon rhag digwydd yn y lle cyntaf. Roedd yn rhain yn cynnwys gwella'r ddealltwriaeth o "Ddyletswydd Gofal" ymysg trigolion a busnesau, lleihau deunydd pecynnu i helpu i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn gwastraff, ac addysg well.

**<u>Ymateb Llywodraeth Cymru</u>**

Codwyd nifer o faterion ehangach y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad yn y cwestiwn hwn. Rhoddir sylw i'r rhain isod.

<u>Casgliadau gwastraff yr Awdurdodau Lleol a darparu gwasanaethau</u>

Mynegwyd pryderon gan sawl ymatebydd ynghylch gwasanaethau casglu gwastraff yr Awdurdod Lleol a'r dybiaeth fod y rhain yn cyfrannu at dipio anghyfreithlon yn eu hardaloedd. Er na all Llywodraeth Cymru wneud sylwadau ar bolisïau Awdurdodau Lleol unigol, cyn y cynnydd a gofnodwyd mewn achosion o dipio anghyfreithlon yn 2015-16 dylid nodi bod y ffigyrau wedi gostwng yn raddol ers 2008/09. Yn ystod y cyfnod hwn roedd Awdurdodau Lleol wedi gwneud sawl newid i'r gwasanaethau casglu gwastraff heb unrhyw effaith ymddangosiadol ar ffigurau tipio anghyfreithlon. Fodd bynnag, mae Awdurdodau Lleol yn dal i weithio gydag Awdurdodau Lleol, Taclo Tipio Cymru, WRAP Cymru a phartneriaid allweddol eraill i ddeall yr hyn sy'n cymell rhywun i dipio'n anghyfreithlon ac i edrych ar ffyrdd eraill o ddylanwadu arno ochr yn ochr â Hysbysiadau Cosb Benodedig.

<u>Materion ehangach sy'n ymwneud ag ansawdd yr amgylchedd lleol</u>

Mae gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru ddyletswydd statudol i sicrhau nad oes sbwriel ar briffyrdd, palmentydd cyhoeddus a mannau hamdden. I'w helpu gyda'r ddyletswydd hon mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid blynyddol i helpu i fynd i'r afael ag ystod eang o faterion yn ymwneud ag ansawdd yr amgylchedd lleol. Yn 2016-17 dynododd Llywodraeth Cymru dros £900,000 o Grant Refeniw Sengl yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy i Awdurdodau Lleol i helpu Awdurdodau Lleol i wneud gwaith prosiect yn eu hardaloedd. Roedd y prosiectau hyn yn cynnwys diwrnod amnest gwastraff (er enghraifft darparu sgipiau fel bod modd i gymunedau gael gwared ar eu gwastraff am ddim), ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth, digwyddiadau addysgol, trefnu ymgyrchoedd casglu sbwriel a throsglwyddo tir na châi ei ddefnyddio neu a oedd wedi ei esgeuluso at ddefnydd cymunedol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cyllid i fudiadau megis Cadwch Gymru'n Daclus a Groundwork Cymru i gefnogi grwpiau cymunedol, trigolion, unigolion, ysgolion a busnesau i'w helpu i drawsnewid eu cymuned yn fan y maen nhw'n falch o ael byw a gweithio ynddo.

<u>Rhannu data a gwybodaeth / goruchwylio</u>

Ers 2014, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi arian i Gyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu FlyMapper, system ar-lein sy'n defnyddio ap ar ffôn clyfar. Mae FlyMapper yn gwneud cofnod manwl o fath a maint a chyfesurynnau'r achosion yn gyflym ac effeithiol yn y maes. Mae'n cadw'r wybodaeth yn ganolog ar wefan hwylus, lle mae modd ei dadansoddi a ffurfio adroddiad i greu darlun manwl o fannau lle mae tipio anghyfreithlon yn gyffredin fel bod modd i Awdurdodau Lleol dargedu a monitro'r ffordd y maen nhw'n mynd i'r afael ag achosion. Mae Taclo Tipio Cymru yn parhau i weithio gydag Awdurdodau Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a thirfeddianwyr preifat i gynyddu'r defnydd o FlyMapper ar draws Cymru.

Er mwyn gwella sut caiff gwybodaeth ei rhannu ar draws Cymru, mae Taclo Tipio Cymru hefyd wedi sefydlu cynllun prawf gyda nifer bychan o Awdurdodau Lleol fel y gallan nhw ddefnyddio cronfa ddata gwybodaeth Memex Cyfoeth Naturiol Cymru. Drwy rannu adnoddau, y gobaith yw y bydd hi'n haws storio a chael mynediad at wybodaeth a fydd, yn ei thro, yn helpu partneriaid i orfodi'r grymoedd sydd ganddyn nhw yn fwy effeithiol. Mae gwaith ar y gweill i ehangu'r cynllun prawf hwn i gynnwys awdurdodau Lleol eraill ar draws Cymru. At hyn, mae gwaith yn prysur fynd rhagddo i ddatblygu, ymysg pethau eraill, ymgyrch "llygaid a chlustiau" i roi gwybod am achosion o dipio anghyfreithlon, archwilio cyfleoedd i'r Trydydd Sector gymryd rhan a rhannu arferion gorau. Mae Taclo Tipio Cymru hefyd yn gallu llwytho camerâu gwyliadwriaeth i awdurdodau lleol yng Nghymru i helpu i gefnogi camau gorfodi.

Dyletswydd Gofal

Mae adran 34 o Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990 yn gosod Dyletswydd Gofal ar bawb sy'n ymwneud â thrin gwastraff rheoledig, o'r person sy'n ei gynhyrchu i'r person sydd yn y pen draw yn cael gwared arno neu'n ei adfer. Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddwyd Cod Ymarfer Dyletswydd Gofal Gwastraff [1] ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae'r ddogfen yn nodi canllawiau ymarferol ar gyfer pobl sy'n cludo gwastraff i sicrhau eu bod yn cwrdd â gofynion eu dyletswydd gofal (mae hyn yn berthnasol i wastraff tŷ, diwydiannol a masnachol.)

Mae ymgyrch ar lein o'r enw "Right Waste, Right Place"[2] wedi ei ddatblygu i helpu i godi ymwybyddiaeth busnesau sy'n cynhyrchu gwastraff o ofynion Dyletswydd Gofal (yn enwedig mentrau bach a chanolig.) Mae Taclo Tipio Cymru hefyd yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r cyfrifoldebau dyletswydd gofal sydd ar breswylwyr mewn perthynas â'r gwastraff a gynhyrchir yn y tŷ pan fydd crefftwyr neu weithwyr proffesiynol wedi bod yno'n gweithio.

[1] Cod Ymarfer Dyletswydd Gofal Gwastraff ar gyfer Cymru a Lloegr - https://www.gov.uk/government/publications/waste-duty-of-care-code-of-practice (Saesneg yn unig)

[2] Right Waste, Right Place - http://www.rightwasterightplace.com/

Lleihau pecynnu

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n comisiynu cwmni ymgynghori i gynnal astudiaeth ddichonolrwydd annibynnol yn ymwneud â phecynnau'r prif fath o fwydydd a diodydd er mwyn diffinio'r posibilrwydd o gynnal mentrau Cyfrifoldeb Estynedig y Cynhyrchydd yng Nghymru. Mae'r mentrau hyn yn sicrhau bod cynhyrchwyr yn ysgwyddo'r gost net sydd ynghlwm â rheoli'r cynnyrch a'r pecynnau y maen nhw'n eu rhoi ar y farchnad. Mae hyn yn cynnwys y gost am atal a rheoli taflu sbwriel. Mae disgwyl y bydd y gwaith ymchwil wedi ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2017.

Addysg a chodi ymwybyddiaeth

Mae lleihau gwastraff yn un o'r wyth maes y mae'r rhaglen Eco Ysgolion yn rhoi sylw iddynt, ynghyd â sbwriel, byw yn iach, bioamrywiaeth, ynni, dŵr, trafnidiaeth a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae Eco Ysgolion yn rhaglen ryngwladol a sefydlwyd 22 mlynedd yn ôl ac sydd bellach yn cynnwys 64 gwlad ar draws y byd. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i Cadwch Gymru'n Daclus redeg y rhaglen yng Nghymru ac mae mwy na 90% o ysgolion wedi cofrestru, fel un o'r canrannau uchaf yn y byd. Yn rhan o'r rhaglen, mae sawl ysgol yn trefnu ymgyrchoedd casglu sbwriel, yn eu meysydd chwarae ac mewn ardaloedd cyfagos. Maen nhw hefyd yn gweithio gyda chymunedau eu hardaloedd ar weithgareddau fel ymgyrchoedd glanhau traethau, coedwigoedd ac afonydd sy'n canolbwyntio ar ymdrin â sbwriel a thipio anghyfreithlon. Y diben yw annog disgyblion, drwy eu dysgu pan maen nhw'n ifanc, i ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at yr amgylchedd i mewn i oedolaeth.

Mae Taclo Tipio Cymru hefyd wedi gweithio'n ddiweddar gyda'r rhaglen Eco Ysgolion i ddarparu pecyn adnoddau "Dal Tipiwr Anghyfreithlon" i athrawon. Maen nhw'n dal i weithio gydag adrannau addysg Awdurdodau Lleol i helpu i godi ymwybyddiaeth plant o dipio anghyfreithlon. Mae modd i Awdurdodau Lleol ymgeisio am arian hefyd drwy gyfrwng Grant Refeniw Sengl yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy i Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Grant gan Lywodraeth Cymru yw hwn sy'n helpu i ddatblygu rhaglenni dysgu ynglŷn ag ansawdd yr amgylchedd lleol.

Ymateb terfynol Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru o ddifri ynglŷn â thipio anghyfreithlon ac mae wedi ymrwymo'n llwyr i fynd i'r afael â'r broblem yng Nghymru. Rydym yn croesawu'r ystod eang o sylwadau a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad a maint y gefnogaeth a gafwyd mewn perthynas â'r grymoedd newydd. Rydym bellach yn bwriadu bwrw ymlaen i gyflwyno'r grymoedd newydd hyn.

Er y gwelwyd cynnydd yng Nghymru drwy weithredu ein strategaeth "*Cymru Ddi-dipio*" a'n bod yn dal i ariannu Taclo Tipio Cymru, rydym yn cydnabod bod llawer o waith eto i'w wneud os ydym eisiau cyflawni ein hamcanion hirdymor. Cyflwr ein hadnoddau naturiol ydy'r gwaddol pwysicaf y byddwn yn eu gadael i genedlaethau'r dyfodol. I greu dyfodol mwy llewyrchus a chadarn i Gymru mae'n rhaid i ni reoli ein tir, ein hawyr a'n dŵr yn gynaliadwy. Credwn y dylai pawb yng Nghymru fyw mewn lle glân, iach a diogel. Er mwyn bod yn fwy llwyddiannus eto byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i ddatblygu prosiectau blaenllaw ar draws Cymru gyfan.